# Y Dinesydd

Gorffennaf 2013 Rhif 379 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

# TAFWYL YSGUBOL

## *Llongyfarchiadau a diolch i Fenter Caerdydd!*

***"Mae Tafwyl yn nifer o bethau, i nifer o bobl... yn ddathliad o Gymreictod ein prifddinas, yn ysbrydoliaeth i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, yn gyfle i gymdeithasu yn yr iaith ac yn fodd o adeiladu pontydd ar draws cymunedau Caerdydd – ond yn bennaf oll, mae'n ddiwrnod bendigedig o hwyl."***

Dyna eiriau Sian Lewis, Prifweithredwr Menter Caerdydd, yn ei haraith agoriadol. Ac yn wir, roedd gerddi'r Castell brynhawn dydd Sadwrn y 15fed o Fehefin yn olygfa fendigedig – dros 12,000 o ymwelwyr – ac yn fwrlwm o hwyl a Chymreictod, reit ynghanol y brifddinas.

Ydy, mae'r lleoliad mor bwysig. Fel y dywedodd Sian: "Nid mewn *ghetto* y mae lle'r Gymraeg a'r rheiny sy'n ei defnyddio, ond wedi eu plethu fel rhan annatod o fywyd Caerdydd. Ryn ni'n gymuned eang ac amrywiol – mae nifer ohonom wedi ein geni a'n magu yn Gymry Cymraeg yn y ddinas, eraill wedi mudo yma a llawer, llawer mwy yn dysgu'r iaith neu'n ei dewis fel cyfrwng addysg i'w plant. Dyna pam mae'n hynod o bwysig i ni fod Tafwyl yn ŵyl rad-ac-am-ddim a'i bod yn cael ei chynnal mewn lle amlwg iawn yng nghanol y brifddinas, gyda'r drysau yn agored i bawb."

Yn y pymtheg mlynedd ers sefydlu Menter Caerdydd, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi dyblu o 18,000 mil i bron 37,000 mil yng Nghyfrifiad 2011. "Does dim amheuaeth gan nifer ohonom," meddai Sian, "o'r rôl bwysig mae'r iaith yn ei chwarae ym mywyd y brifddinas. Ein gobaith yw y bydd mwy yn dod i sylweddoli a gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae'r gymuned Gymraeg ei haith yn ei wneud i Gaerdydd – yn ddiwylliannol, yn addysgol ac yn economaidd."




A beth am y dyfodol? Meddai Sian: "Hon yw'r ŵyl gymunedol Gymreig fwyaf yng Nghymru, a mae lle iddi dyfu ymhellach. Ein gobaith yw manteisio ar lwyddiant yr ŵyl hyd yma a, chan ddatblygu ein partneriaethau ymhellach, sicrhau Gŵyl benwythnos fydd yn denu nid yn unig trigolion Caerdydd ond ymwelwyr ar draws Cymru a thramor."

**Bryan James**

# POBL CAERDYDD

Mae diddordeb mawr wedi bod yn ein darpariaeth ddigidol newydd, *Pobl Caerdydd*, sef y *Dinesydd* digidol, ers y lansiad llwyddiannus yn Tafwyl. Cawsom gefnogaeth swyddogol gan y Prif Weinidog, Carwyn Jones, y Gweinidog Addysg, Leighton Andrews a hyd yn yr oed yr actor Matthew Rhys. Ac er gwaethaf y gwynt a'r glaw yn y bore, roedd ein stondin – a diolch yn fawr i Menter Caerdydd – gyda chriw y *Dinesydd*, yn fwrlwm ac yn brysur trwy'r dydd.

Ar ôl dim ond ychydig dros wythnos mae dros 600 o ddilynwyr gyda @poblcaerdydd ar Twitter ac mae dros 10,000 o bobl wedi ymweld â'r safle ar Facebook. Mae gennym nifer helaeth o erthyglau erbyn hyn ar y wefan www.poblcaerdydd.com gan gynnwys atgofion Huw Stephens am Glwb Ifor Bach, dyddiadur dringo Kilimanjaro Shan Cothi, erthygl gan Vaughan Roderick, cyfweliadau gyda Matthew Rhys a'r actores Sharon Morgan yn

*Parhad ar dudalen 2*



Gwenda Richards, Golygydd *Pobl Caerdydd*. Magwyd Gwenda yn y Barri ac mae nawr yn byw ym Mhenarth. Bu'n gweithio fel newyddiadurwraig erioed yng Nghaerdydd, gyda'r *Western Mail*, HTV a'r BBC. Pob lwc iddi hi a'r tîm wrth ddatblygu gwefan *Pobl Caerdydd*.

## Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
**Dafydd Saer**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Hefin Mathias**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Medi erbyn 27 Awst i:
13 Heol Don, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AR
Ffôn: 02920 311340
hefinmathias@hotmail.co.uk

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Bryan James
52 Highfields, Llandaf, Caerdydd CF5 2QB
029 20 566731
db.james@ntlworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.**

### Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr
**CABAN**, Pontcanna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina
**HALLS**, Llandaf
**HALCYON DAZE**, Wellfield Road
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, Penarth
**FOOD FOR THOUGHT**, Y Barri
**COFFEE LOUNGE**, Llanisien

# POBL CAERDYDD

*- Parhad o dudalen 1*

ogystal â newyddion, chwaraeon ac adolygiadau. Mae 'na rywbeth i bawb!

Mae'r criw comisiynu yn cwrdd bob nos Iau yn Chapter i drafod *Pobl Caerdydd* ac rydym yn edrych am gefnogaeth a chyfraniadau megis straeon, newyddion, digwyddiadau, lluniau, adolygiadau neu unrhyw gynnwys cyfredol i'w hychwanegu at y wefan. Mae'n hawdd cyfrannu, wrth gofrestru ar Little J gallwch ddanfon unrhyw gynnwys yn syth at dîm *Pobl Caerdydd* – http://poblcaerdydd.littlej.org neu gallwch e-bostio helo@poblcaerdydd.com



Criw *Pobl Caerdydd* gyda Matthew Rhys yn Tafwyl – o'r chwith: Sali Collins (Cydlynydd), Paul Davies (Cynllunydd Little j), Emma Meeze (Cydlynydd), Matthew, wrth gwrs, Rhydian Bowen Phillips (Is-olygydd), Rhys Lloyd (Is-olygydd) a Sara Moseley, Cymrawd yn Ysgol Newyddiaduraeth y Brifysgol (Arweinydd y Prosiect).

Mae *Pobl Caerdydd* hefyd ar Facebook a Twitter @poblcaerdydd #poblcaerdydd

**Sali Collins** (Cydlynydd)

# *Swydd Newydd i Betsan*

Mae BBC Radio Cymru wedi cyhoeddi mai Betsan Powys sydd wedi'i phenodi yn Olygydd Rhaglenni Radio Cymru.

Bydd Betsan yn gweithio'n agos gyda Phennaeth Rhaglenni a Gwasanaethau Cymraeg BBC Cymru Wales, Sian Gwynedd, a hi fydd yn gyfrifol am gomisiynu a goruchwylio holl raglenni cyffredinol Radio Cymru.

Mae Betsan Powys, a fagwyd ym Mangor a Chaerdydd, wedi bod yn Olygydd Gwleidyddol BBC Cymru Wales ers 2006, yn arwain y tîm yn olygyddol ac yn rheoli'r uned wleidyddol. Mae hi hefyd yn aelod o dîm rheoli'r adran newyddion. Mae gan Betsan brofiad helaeth o ohebu a chyflwyno yn Gymraeg a Saesneg ar ystod eang o bynciau ar raglenni newyddion a materion cyfoes gan gynnwys *Panorama*, *Week In Week Out* a'r *Byd ar Bedwar*. Hi oedd gohebydd Celfyddydau a Chyfryngau BBC Cymru a chyflwynydd *Mastermind Cymru* ar S4C.



Dywedodd Sian Gwynedd, Pennaeth Rhaglenni a Gwasanaethau Cymraeg BBC Cymru Wales: 'Mae'n gyfnod heriol i Radio Cymru ond rydw i'n ffyddiog bod gan Betsan y sgiliau a'r profiad i ymgymryd yn egnïol â'r sialensau sy'n wynebu'r orsaf. Rydw i'n edrych ymlaen at ei gweld hi'n rhoi ei stamp ei hun ar y gwahanol raglenni a sicrhau bod y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i'r gynulleidfa yn berthnasol ac o'r safon uchaf.'

Dywedodd Betsan Powys: 'Mae arwain Radio Cymru yn mynd â fi i gyfeiriad newydd ar ôl cyfnod cynhyrfus ym myd gwleidyddiaeth Cymru. Rwy'n edrych ymlaen i ddod i 'nabod a chydweithio â staff Radio Cymru – tîm talentog a chreadigol sydd wedi dangos cymaint o ymroddiad i'r orsaf. Byddaf yn gwrando gyda diddordeb ar *Y Sgwrs* a rwy'n gyffrous iawn am fy mod i nawr yn cael y cyfle i arwain y gwasanaeth i ddyfodol newydd.'

Bydd Betsan Powys yn cymryd yr awenau ar 1 Gorffennaf.

# *Blwyddyn lwyddiannus arall i Gôr Caerdydd*

Blwyddyn ers rhyddhau eu hail gryno-ddisg i ddathlu penblwydd y côr yn 20 oed, gall aelodau Côr Caerdydd edrych yn ôl ar flwyddyn ddiddorol, lwyddiannus a phrysur.

Ym misoedd yr haf, bu'r côr yn rhan o daith *première* gwaith newydd y cyfansoddwr o Benclawdd, Karl Jenkins, *The Peacemakers – Y Tangnefeddwyr*. Am y tro cyntaf yn ei hanes, fe ganodd y côr yn Neuadd Symffoni Birmingham, oedd yn dipyn o anrhydedd.

Yn yr Hydref, taith i Vienna a chanu yng Nghadeirlan enwog St. Stephen ynghanol y ddinas. Cyflwynwyd rhaglen ddigyfeiliant gan gynnwys darnau crefyddol o Gymru, a chafwyd gwrandawiad astud a chynulleidfa werthfawrogol iawn. Roedd hyn amser cinio dydd Sul, ac yn y nos rhoddwyd cyngerdd yn un o eglwysi eraill y ddinas arbennig hon, sydd â chymaint o hanes cerddorol a diwylliannol iddi hi.

Ar y nos Fercher cyn y daith i Vienna fe dderbyniodd y côr wahoddiad i ganu o flaen yr Archesgob Desmond Tutu yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Roedd hi'n fraint i gael canu i berson mor ddylanwadol a ysbrydoledig ac roedd yr Archesgob yn wên o glust i glust. Cododd ar ei draed yn syth ar ôl i'r côr ganu fel arwydd o werthfawrogiad.

Daeth 2012 i ben gyda chyngerdd gysegredig ar Sul y Cofio yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd, canu mewn ocsiwn i godi arian i Gymorth Cristnogol, gwasanaeth carolau Sefydliad Aren Cymru a chanu carolau i godi arian i Sefydliad Prydeinig y Galon yn yr Eglwys Newydd.

Yn ystod pum mis cyntaf eleni, pump gyngerdd gan gynnwys canu yng Nghapel Wesley, Cowbridge Road East i godi arian at y Capel lle mae'r côr yn ymarfer, cyngerdd i'r elusen 'Yr Ystafell Fyw' a drefnwyd gan Gapel Ebeneser yn Eglwys y Ddinas, canu mewn cinio Gwyl Ddewi yng ngwesty'r Hilton, canu ar lwyfan Glanfa yng Nghanolfan Mileniwm Cymru a'r uchafbwynt oedd canu gweithiau Karl Jenkins yn Neuadd Frenhinol Albert, Llundain ddiwedd Ebrill. Gan bod Côr Caerdydd wedi



Edward Radcliffe, www.wemakepictures.co.uk

canu yn Neuadd Albert fel rhan o gyfres y BBC Proms ddwy waith yn y gorffennol,'roedd cryn edrych ymlaen at y digwyddiad.

Ers rhai blynyddoedd bellach, mae Côr Caerdydd wedi datblygu perthynas agos gyda'r cyfansoddwr Karl Jenkins gyda gwahoddiadau cyson i berfformio ei waith. Yn y gyngerdd ym mis Ebrill, perfformiwyd y *Requiem* a'r *Offeren Heddwch* (The Armed Man). Yn ôl arweinydd a sefydlydd Côr Caerdydd, Gwawr Owen, 'Roedd Neuadd Albert dan ei sang, ac roedd yn brofiad arbennig ac emosiynnol i'r côr gan bod yr *Offeren Heddwch* yn waith pwerus iawn. Roedd gweld y gynulleidfa ar ei thraed yn cymeradwyo ar y diwedd yn anhygoel.'

Yn ysgrifennu yn *Y Tyst* ddechrau Mai, dyma oedd gan un o'r baswyr, Geraint Rees i ddweud am yr achlysur: 'Dydd Sul roedd Côr Caerdydd yn canu gweithiau Karl Jenkins yn Neuadd Albert gyda'r gŵr mawr ei hun yn ein harwain ni a cherddorfa'r Royal Philharmonic. Roedd i'r holl beth wefr cymanfa lwyddiannus, a chwrdd gweddi dwys. Trwy rym y geiriau a gwefr ei drefniannau, grym y canu torfol a'r ymateb cynulleidfaol… roedd yn brofiad ysbrydol dwys. Oedfa i'r enaid heb adeilad na gwasanaeth Capel.

Bydd Côr Caerdydd yn perfformio'r *Offeren Heddwch* eto, o dan arweiniad y cyfansoddwr ei hun, yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd ar brynhawn Sul, 17 Tachwedd.

# Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd

## Heddwch a Rhyfel

Roedd festri Capel y Crwys, Heol Richmond, yn orlawn nos Iau, 13 Mehefin, i wrando ar safbwyntiau tri ar y testun 'Heddwch a Rhyfel'. Y tri oedd Guto Prys ap Gwynfor, Owain Llŷr Evans a Rod Richards. Mynnodd Guto Prys mai'r diniwed sy'n dioddef a bod yna apêl ddieflig gan ryfel – ei fod yn creu heddwch, ei fod yn rhyddhau pobl, ei fod yn gwareiddio, mai dyna'r unig ffordd i ddelio ag unben, ei fod yn fodd i amddiffyn eich gwerthoedd. Ym marn Guto, Cadeirydd Cymdeithas y Cymod a gweinidog gyda'r Annibynwyr yn ardal Llandysul, mae rhyfel yn rhamanteiddio trais, yn gwyrdroi gwirionedd.

Barn wahanol oedd gan Rod Richards, y cyn-Aelod Seneddol Ceidwadol, y cyn-filwr a darlledwr cyson ar Radio Cymru. Mae Rhodri a Trystan, ei feibion, wedi bod ar faes y gad yn Irac ac Affganistan. Dywedodd wrthym nad oedd wedi dod i'n plith i gyfiawnhau rhyfel ond i ymddiheuro bod rhyfel yn anochel am fod y natur ddynol fel y mae. Nid yw'n bosibl, yn ei farn e, cymodi â Moslemiaid eithafol.

Mynd ar drywydd Martin Luther wnaeth Owain Llŷr Evans, gweinidog capel Minny Street, a thrafod dadleuon y diwygiwr hwnnw o'r Almaen rhwng 1529 a 1540 pan fu rhyfela yn erbyn y Twrciaid. Credai Martin Luther mai'r unig gyfiawnhad dros ryfela yw hunanamddiffyn. Yn ôl Owain Llŷr mae gan y diwygiwr sawl neges berthnasol i'n sefyllfa ni heddiw.

Gofynnwyd sawl cwestiwn i'r tri:

- sut y dylid mynd ati i gofio'r Rhyfel Mawr?
- a ddylid sefydlu amgueddfa filwrol?
- ein harweinwyr sy'n mynd â ni i ryfel, sut dylid codi llais?
- petai Adroddiad Chilcott yn datgan bod y rhyfel Irac yn un anghyfreithlon, a ddylid erlyn Tony Blair?

## Llwyddiant i Tafwyl 2013 - cynnydd sylweddol yn niferoedd i'r Ŵyl

Bu cynnydd sylweddol yn y nifer o bobl wnaeth fynychu gŵyl Gymraeg Tafwyl yng Nghaerdydd eleni. Yn ôl y trefnwyr, Menter Caerdydd, dyma'r Ŵyl fwyaf llwyddiannus erioed i Tafwyl ers iddi gael ei sefydlu yn 2006.

Agorwyd Tafwyl eleni gan y seren Hollywood o Gaerdydd, Matthew Rhys a daeth 14,000 o bobl i ddigwyddiadau Tafwyl dros wythnos yr Ŵyl (Mehefin 14 - 21) - dros draean yn fwy na'r 10,000 y llynedd. Roedd mwy na 12,000 ohonynt wedi ymweld â Ffair Tafwyl yng ngerddi Castell Caerdydd ar ddydd Sadwrn cyntaf yr Ŵyl - cynnydd sylweddol o'i gymharu â'r 8,500 o ymwelwyr ddaeth yno'r llynedd.

Er gwaethaf pryderon ynglŷn â dyfodol Tafwyl 2013 yn dilyn colli cyllid allweddol yn gynharach eleni, fe lwyddodd Menter Caerdydd i sicrhau nawdd o bron i £20,000 o gyllid gan 68 o noddwyr - cynnydd sylweddol o'r £4,500 y llynedd. Cafwyd £20,000 o nawdd munud olaf gan Lywodraeth Cymru a chyfrannodd Cyngor Caerdydd ddefnydd Castell Caerdydd a chefnogaeth arall at yr Ŵyl.

Dywed Prif Weithredwr Menter Caerdydd, Sian Lewis, sy'n trefnu'r Ŵyl: "Mae Tafwyl 2013 wedi bod yn llwyddiant ysgubol a hoffem ddiolch yn fawr i'n partneriaid, ein noddwyr a'r holl bobl ddaeth i ymweld â'r Ŵyl gan sicrhau'r llwyddiant hwnnw. Mae'n amlwg bod galw am Ŵyl o'r fath yn y Gymraeg yn ein prifddinas a bod lle i ddatblygu'r Ŵyl ymhellach. Ein gobaith yw adeiladu ar lwyddiant eleni ac ymestyn y Ffair dros benwythnos agoriadol yr Ŵyl. Wedi ymateb mor gadarnhaol gan gefnogwyr o bob oed eleni, mae gennym lu o syniadau cyffrous iawn ar gyfer Tafwyl 2014. Mae trafodaethau eisoes ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd a'n partneriaid am sut i sicrhau dyfodol yr Ŵyl a'i datblygu."

Mae'r Gweinidog dros Addysg, Sgiliau a'r Iaith Gymraeg, Leighton Andrews AC, wedi llongyfarch Tafwyl 2013. "Mae Tafwyl Menter Caerdydd yn ffordd ardderchog o hyrwyddo a dathlu'r iaith Gymraeg ac rydyn ni wrth ein boddau yn cefnogi'r Ŵyl eleni gyda grant o £20,000. Fe fwynheuais fy ymweliad â ffair Tafwyl unwaith yn rhagor eleni, ac roeddwn i'n falch iawn i weld yr iaith yn fyw yng nghanol y brifddinas."

Dywed y **Cynghorydd Huw Thomas**, aelod cabinet o Gyngor Caerdydd â chyfrifoldeb dros ddiwylliant; "Roedd hi'n bleser cael mynychu prif ddigwyddiad Tafwyl ar faes Castell Caerdydd, a gweld torf fawr, yn siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg, yn mwynhau diwylliant Cymraeg y ddinas. Mae Tafwyl wedi dod yn rhan annatod o 'Ŵyl Caerdydd', ac fe fydd y Cyngor yn dechrau trafodaethau gyda'r trefnwyr yn fuan i sicrhau fod yr Ŵyl yn mynd o nerth i nerth."

Roedd uchafbwyntiau Tafwyl 2013 eleni yn cynnwys: cyfraniadau gan bob un o ysgolion cyfrwng Cymraeg Caerdydd ar lwyfan ysgolion Ffair Tafwyl; lansio prosiect cymunedol ar-lein @poblCaerdydd; ymweliad Cerys Matthews â'r gig werin Cwpwrdd Nansi a pherfformiad cofiadwy gan Georgia Ruth; Geraint Jarman yn cloi Ffair Tafwyl; gorfod cynnal ail berfformiad munud olaf o'r Brotest Fudr i ateb y galw; dros 220 yn mynychu amser stori gyda Hana (Holi Hana) yn Llyfrgell Ganolog y Ddinas.

### Twitter, Facebook a You Tube

Cofiwch fod gan y Fenter gyfrifon Twitter, Facebook ac You Tube, ac rydym yn diweddaru'r tudalennau'n aml, felly mae'n ffordd hawdd o glywed am yr holl newyddion diweddaraf.

## Teithiau Bws i'r Sioe Frenhinol a Gwyl Fwyd y Fenni

Bydd Menter Caerdydd yn trefnu bws i sioe Llanelwedd Ddydd Mawrth, Gorffennaf 23. Bydd y bws yn gadael o tu allan y Mochyn Du am 8am. Bydd yn dychwelyd o'r Sioe am 6pm. Y gost yw £10 i Oedolion a £5 i blant.

Bydd bws hefyd i Ŵyl Fwyd y Fenni, Ddydd Sadwrn, Medi 21. Eto, bydd y bws yn gadael o tu allan i'r Mochyn Du am 10am. Bydd yn dychwelyd o'r Fenni am 5pm. Cost y bws fydd £12 i Oedolion a £5 i blant.

Os hoffech archebu lle ar y bws, cyslltwch ag Angharad Thomas yn swyddfa'r Fenter – 029 2068 9888 neu ar ebost angharad@mentercaerdydd.org. Mae modd archebu ar-lein hefyd drwy fynd i'r wefan – mentercaerdydd.org.

## Cwrs Ffitrwydd Dwys i Oedolion (Newydd)

Mae Menter Caerdydd, mewn partneriaeth â'r hyfforddwraig ffitrwydd proffesiynol, Catrin Ahmun, wedi llunio cwrs dwys ffitrwydd newydd i Oedolion. Bydd y cwrs 10 wythnos yn dechrau Nos Sul, Gorffennaf 7 ac yn cyfarfod 3 gwaith yr wythnos gan edrych ar agweddau gwahanol o ffitrwydd, iechyd a lles gan gynnwys pilates, sesiynau 'Bwrw'r Braster', sesiynau campfa yn Iechyd Da a ffitrwydd awyr agored yng Nghaeau Llandaf.

Mae'r cwrs yn un perffaith ar gyfer unigolion sydd wedi ystyried gweithio gyda hyfforddwr personol, ond ychydig yn swil i neud. Bydd y sesiynau i gyd yn digwydd fel grwp, a bydd pawb yn cael cyfle i lunio rhaglen bersonol gan ddysgu sut i ymarfer yn effeithiol, trawsnewid siap y corff, addysgu'r meddwl sut i fyw'n iawb a delio gyda phwysau bywyd, dysgu arferion newydd gan edrych hefyd ar ffyrdd holistig o fyw ee Bwyta'n iach, creu egni i ymarfer yn effeithiol.

Cost y cwrs bydd £200 (byddai cost cofrestru gyda Hyfforddwr Personol yn tua £900!) Mae modd talu dau daliad o £100, neu £180 os hoffech wneud un taliad yn unig, sy'n ostyniad o £20. £130 yw'r gost i fyfyrwyr neu'r di-waith.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â Sian Lewis yn swyddfa Menter Caerdydd, neu ewch i wefan Menter Caerdydd am wybodaeth ac i gofrestru – www.mentercaerdydd.org

# Colofn G.R.

Mae Eisteddfod yr Urdd wedi dod i ben am flwyddyn arall ac unwaith eto roedd hi'n bleser gwrando ar y gwahanol gystadlaethau gan fod y safon mor uchel. Treuliais i'r wythnos gyfan o flaen y set deledu a mwynheais yr arlwy yn fawr iawn. Braf oedd gweld cymaint o blant a phobl ifanc Caerdydd a'r Fro yn serennu ar lwyfan yr Eisteddfod a llongyfarchiadau i bawb a lwyddodd i gyrraedd y rhagbrofion heb sôn am ymddangos ar y llwyfan. Dim ond canmol sy wedi bod ar y trefniadau a rhoddwyd diolch arbennig i fechgyn Clwb Rygbi Crymych am y ffordd drefnon nhw'r parcio! Tybed ai bechgyn Clwb Rygbi'r Bala fydd yn gyfrifol am y parcio y flwyddyn nesa pan fydd yr Eisteddfod yn ymweld â'r ardal honno?!

Ymwelodd Carwyn Jones, Prif Weinidog Llywodraeth Cymru â'r Eisteddfod i lansio 'Iaith Fyw: Y Gynhadledd Fawr' sy'n holi pobl ifanc am eu defnydd neu ddiffyg defnydd o'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Waeth beth a drefnir neu a ddywedir, heb yr argyhoeddiad a'r ewyllys ni fydd lawer o gynnydd. Sut mae ysbrydoli'r ifanc i ymlynu wrth y Gymraeg, sy'n peri tipyn o gur pen i lawer dros y blynyddoedd – a does dim ateb boddhaol wedi dod i'r fei hyd yn hyn. Mi ddywedodd Emrys ap Iwan unwaith, 'os lledir y Gymraeg, fe'i lledir yn nhŷ ei chyfeillion' – gwir pob gair a waeth neb â beio'r di-Gymraeg am ddifrawder llawer o'n siaradwyr Cymraeg.

Yn ddiweddar bues i yng nghwmni aelodau o Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina am dair noson yn Llandudno. O'n i erioed wedi aros yna o'r blaen. Rhyfeddais at yr harddwch a'r diffyg sbwriel a graffiti.








*Rhai o aelodau Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina yn ymweld â bedd Michael D Jones ym mynwent Yr Hen Gapel, Llanuwchllyn.*

Mae'r dre yn amlwg yn atynfa i lawer, a braf oedd cerdded ar hyd y prom i anadlu awyr iach y môr rhwng yr ymweliadau â Phen y Gogarth, Gerddi Bodnant, Port Sunlight a dinas Lerpwl.

Cafwyd siwrnai ddifyr o Riwbeina i Landudno ac roedd y wlad yn hardd a gwyrdd ac yn falm i'r llygaid. Arhoson ni am goffi yn y Metropole yn Llandrindod a chael croeso Cymreig yn nhafarn y Llew Coch yn Ninas Mawddwy am fyrbryd cyn aros yn Llanuwchllyn am ysbaid i ymweld â beddau O.M. Edwards, ei fab Ifan ab, a Michael D. Jones, sylfaenydd y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia. Wedyn, galw yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn, i edmygu'r olygfa o'r gwersyll. Dywedodd O.M. unwaith, 'Pe bawn i'n bagan, yr Aran a addolwn'! Ar fore llonydd ceir adlewyrchiad o fynydd yr Aran yn nŵr y Llyn. Mae'r gwersyll hwn wedi ysbrydoli llawer o bobl ifanc dros y blynyddoedd a hwyrach mai dyna'r ateb – sefydlu mwy o wersylloedd tebyg i Lanllyn a Llangrannog!

Fore Mawrth dyma fynd i Ben y Gogarth ar dram i edmygu'r golygfeydd ysblennydd yn heulwen yr haf ac yna yn y pnawn ymweld â Gerddi Bodnant sy'n denu'r miloedd gan fod yr holl flodau, coed a phlanhigion yno yn ddigon o sioe.

Yna, ar y bore olaf, i ffwrdd â ni i ymweld ag Oriel Leverhulme yn Port Sunlight ar ein ffordd i ddinas Lerpwl. Y gobaith oedd gweld y llun gwreiddiol o Salem ond yn anffodus roedd o ar fenthyg i arddangosfa ym Mangor ar y pryd. Ond serch hynny roedd y casgliad celfyddydol yn yr Oriel yn rhyfeddol. Holwyd am y darlun gwreiddiol arall, sef 'Diwrnod Marchnad' ac er mawr syndod cafwyd gwybod ei fod yn ein hamgueddfa genedlaethol yng Nghaerdydd!

Aethon ni drwy'r twnnel dan y Ferswy i gyrraedd Lerpwl gan gyfarfod â'r Parchg D. Ben Rees, a arferai fod yn weinidog ar un o eglwysi Cymraeg y ddinas. Aeth â ni ar y bws i weld gwahanol lefydd â chysylltiadau Cymreig, megis mynwent lle claddwyd Gwilym Hiraethog ac enwogion eraill a phasion ni heibio stryd lle bu un o'r Beatles yn byw! Gorffennwyd y daith yn yr Eglwys Gadeiriol Anglicanaidd, sy'n rhyfeddol o adeilad ac yn ddigon mawr i gynnwys Eglwys Gadeiriol Llandaf ddwywaith drosodd!

Mae Caerdydd fel pentref i gymharu â maint Lerpwl ac yn ôl D. Ben Rees, y Cymry a'r Gwyddelod oedd yn gyfrifol am godi y rhan fwyaf o'r tai yn y ddinas.

Mae Cadeirydd y Gymdeithas a threfnydd y daith eisoes yn sôn am fynd i Gernyw y flwyddyn nesa! Beth am ymuno â ni?

# Ôl-Lwybrau

Yn gyn-ddisgybl Ysgol Padrig Sant, Treflys, 'rwyf yn gwerthfawrogi fy magwraeth Gatholig aml-ddiwylliannol yn y ddinas oedd wedi agor fy meddwl i fodolaeth ieithoedd a diwylliannau amrywiol ac wedi paratoi'r ffordd i fi allu gwerthfawrogi Cymru a'r iaith Gymraeg mewn cyd-destun byd-eang.

Rwyf yn ddyledus i Terry ("Titch") Stevens, prifathro f'ysgol gynradd, am ei weledigaeth wrth iddo gyflwyno'r iaith Gymraeg i ddisgyblion yr ysgol, i "Mr Davies" (yr athro Cymraeg a arloesodd y pwnc yn yr ysgol) ac yn ddiweddarach, pan oeddwn yn y chweched dosbarth, i Mrs Hughes a'i chyfaill Eira Philips a sicrhaodd gyfleoedd i fi fwynhau diwylliant Cymru gyda rhai cyfoedion – a'm cyfeirio at Aelwyd yr Urdd.

Un o'r dylanwadau mwyaf arnaf yn ystod y cyfnod hwnnw oedd Aelwyd yr Urdd, Treganna. Diolch i'r gwirfoddolwyr ymroddedig yno, cefais i a nifer o ieuenctid y ddinas ein hysbrydoli a'n cynorthwyo i ddod yn rhugl yn y Gymraeg gan ddefnyddio'r iaith yn ein bywyd beunyddiol trwy ymuno yng ngweithgareddau'r aelwyd a darganfod ffrindiau newydd yno. Ac am y canu yn nhafarn y Conwy! Digon i godi'r to! Alla i ddim gorddweud, chwaith, bwysigrwydd yr Offeren Gymraeg yn y Bont-faen (a symudodd i'r ddinas ac sydd ar hyn o bryd dan ansicrwydd am ei dyfodol).

Do, mi es i i ffwrdd i'r coleg, ac er imi ddod adre i Gaerdydd lawer gwaith – ac yn dal i wneud hynny pan ddaw'r cyfle – doedd pethau ddim yn hollol yr un fath wedyn. Mae Caerdydd yn datblygu o hyd – a mater o lawenydd mawr i fi yw cael clywed am yr holl ysgolion Cymraeg sydd wedi codi fel grawn unnos drwy'r ddinas. Mae'n rhoi cymaint o bleser i fi feddwl am y niferoedd mawr o blant erbyn hyn sydd yn cael y fraint o gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, oherwydd pobl Cymru piau'r iaith – o ba bynnag ddiwylliant y dônt yn wreiddiol (a dywedaf hynny fel un sydd â gwreiddiau yng Ngwlad Pwyl yn ogystal ag yng Nghymru).

**Anne C. Uruska**


**CYFARFOD BLYNYDDOL**

***Croeso i bawb i Gyfarfod Blynyddol y Dinesydd***

Capel Bethel, Maes y Deri, Rhiwbeina

**Nos Lun, 22 Gorffennaf**

am 7.00 y.h.

**Gwefan Y Dinesydd: www.dinesydd.com**


# Huw i redeg yn y Stadiwm Olympaidd!

Ar 21 Gorffennaf bydd Llysgennad Sefydliad Prydeinig y Galon, a'r rhedwr rhyngwladol, Huw Roberts, yn cystadlu mewn ras 5 milltir sydd yn cychwyn yn y Parc Olympaidd ac yn gorffen ar y trac rhedeg yn y Stadiwm Olympaidd yn nwyrain Llundain.

Meddai Huw, "Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr i redeg y ras ac i orffen yn y Stadiwm Olympaidd ble y rhedodd Usain Bolt, Mo Farah a Jessica Ennis. Y gobaith yw ffeindio sprint mawr ar ddiwedd y ras i roi teilyngdod i'r achlysur.

"Byddaf yn codi arian i Sefydliad Prydeinig y Galon a hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u dymuniadau gorau am y ras."

[Nodyn. Huw yw Trysorydd y *Dinesydd*, felly rwy'n siwr ein bod i gyd yn dymuno'n da iddo yn orchest arbennig hon.]




Gellir noddi Huw trwy gyfrannu at www.justgiving.com/huwrobertspilgrimageforpeace neu drwy siec yn daladwy i Sefydliad Prydeinig y Galon i'w gartref yn 6 Heol Alfreda, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2EH.

**Cefndir Huw:**

- Yn enedigol o Llandissilio, sir Benfro.
- Mab i Weinidog y Bedyddwyr, Parchedig John Roberts.
- Bellach yn gweithio fel cyfrifydd yng Nghaerdydd.
- Wedi cynrychioli ei wlad mewn athletau.
- Yn Llysgennad i Sefydliad Prydeinig y Galon.

## Eisteddfod Dinbych a thair rhaglen

Gwahoddiad caredig yw hwn. Mae gwledd o ddigwyddiadau wedi'u trefnu ar ein cyfer yn Eisteddfod Dinbych a'r Cyffiniau. Fy mraint fawr i fydd cael cyflwyno tair rhaglen ddylai fod at ddant llawer o'r darllenwyr, gyda'r pwyslais ar ddifyrru ac addysgu.

**Pnawn Mercher, 7 Awst**, Pabell y Cymdeithasau 2, am 3.30 pm. Cymdeithas Hynafiaethau Cymru: Sgwrs, 'Llên Gwerin Bro Hiraethog'.

**Pnawn Iau, 8 Awst**, y Babell Lên, 3.45 pm. 'Beirdd Bro Hiraethog: Rhaglen ar Lafar ac ar Gân', yng nghwmni Côr Meibion Llangwm, Arweinydd: Bethan Smallwood; Parti Llefaru Meirchion, Arweinydd: Haf Evans; Steffan Hughes: canu gwerin.

**Pnawn Gwener, 9 Awst,** Y Stiwdio, 2.00 pm. 'Heddwch ar Waith ac Arweiniad Cymru i'r Byd'. Cyfarfod Academi Heddwch Cymru. Cadeirydd: Mererid Hopwood.

Croeso cynnes iawn i chwi a'ch cyfeillion.

**Robin Gwyndaf**

# Newyddion...

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Menna Tudwal Jones, merch y Parchg Glyn Tudwal Jones a'i briod Delyth, ar ennill ei Doethuriaeth o Brifysgol Lerpwl. Y testun yw 'Adfywiad Trefol', a bydd yn derbyn y radd mewn seremoni yn ystod mis Gorffennaf.

## Llwyddiant Hana



Mae Hana Evans, 13 o Benarth wedi llwyddo i gyrraedd ffeinal Teenstar UK, ac yn cael canu o flaen gynulleidfa fyw yn yr O2 Llundain ar y 7fed o Orffennaf. Ar ôl cystadlu mewn tri rownd blaenorol, fe lwyddodd Hana i ddenu sylw y beirniaid. Bu dros 9,000 o gystadleuwyr dros Brydain gyfan yn trio bachu lle yn y ffeinal.

Mae Hana yn mwynhau perfformio a chyfansoddi, ac yn Llundain fe fydd hi'n perfformio un o ganeuon Justin Bieber a addaswyd ganddi, a'i chymysgu gyda un o'i chyfansoddiadau ei hun.

Dywedodd Hana, "Mae'n gyfle gwych i berfformio yn un o venues mwyaf nodedig y sîn gerddoriaeth, lle mae bandiau ac unigolion mwya poblogaidd Prydain wedi gigio. Dwi methu aros! Mae'r cynhyrchydd Mark Hill eisoes wedi ei ddewis fel un o'r beirniaid – mae e wedi ennill gwobr Ivor Novello am ei waith. Yn y gorffenol mae artistiaid megys Birdy a Lucy Spraggan wedi dod i'r brig yn y gystadleuaeth yma, felly dwi wedi bod yn paratoi ers misoedd!"

Mae Hana yn ffan mawr o Gabriel Aplin, Al Lewis, Becky G a Cee Lo Green ond mae'r rhestr yn hirfaeth!

Os am fwy o wybodaeth neu i gael sgwrs gyda Hana, ebostiwch gutoevans@ntlworld.com neu ffoniwch art 07976627656

## Cydymdeimlo â

Theulu y ddiweddar Ronwen Jones, Llandaf, gynt o Gomins Coch a fu farw yn Hospis Holme Towers Penarth ar 20 Mai. Bu'r angladd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar 7 Mehefin ac wedi hynny yn Amlosgfa'r Ddraenen.

## Cydymdeimlo â

Theulu y ddiweddar Iona Jones, Treganna, gynt o Aberystwyth a Chwmbrwyno a fu farw ar 29 Mai. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Salem Treganna ar 5 Mehefin.

## Ordeinio dau yng Nghaerdydd

Cynhaliwyd Cyfarfod Ordeinio Trystan Halam ac Emyr James yn gyd-weinidogion ar Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd ar 8 Mai yn Eglwys Highfields, y Rhath. Dymunwn bob llwyddiant i'r ddau yn eu tyrstiolaeth dros Grist.

## Anrhydedd i ddau weithgar

Llongyfarchiadau i Hywel a Gwyneth Jeffries, Parc y Rhath, ar dderbyn y BEM yn rhestr anrhydeddau'r Frenhines am eu gwaith yn codi miloedd o bunnoedd i elusennau dros y blynyddoedd.

## MBE i Bennaeth Cerdd

Llongyfarchiadau i Eric Wyn Phillips, Pennaeth Adran Gerdd Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ar dderbyn y MBE yn rhestr anrhydeddau'r Frenhines am ei waith ym myd addysg a cherdd.

## Bore Coffi i Shelter Cymru

Cynhaliwyd Bore Coffi er budd Shelter Cymru gan Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina ar fore Sadwrn 22 Mehefin yn Festri Bethania, Heol Llanisienfach, a chodwyd £230 at yr achos.

## Llongyfarchiadau

i Trystan a Sian Francis, Penylan ar enedigaeth Mimi yn Ysbyty'r Brifysgol ar 13 Mehefin, wyres i Gwenda Francis, Rhiwbeina a Gary a Beryl Hopkins, Aberpennar.

## Cyfarfod Blynyddol yn Rhiwbeina

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina ar nos Lun 17 Mehefin ac etholwyd y canlynol yn swyddogion y Gymdeithas am 2013–14. Cadeirydd: Falmai Griffiths; cyd-ysgrifenyddion, Lona Roberts a Shirley Williams; cyd-drysoryddion: Gwyneth Jennings a Beryl Jenkins. Ar ôl y cyfarfod busnes cafwyd sgwrs fyrlymus a difyr gan y llenor Catrin Dafydd, gynt o Waelod y Garth.

## Llongyfarchiadau

I Hannah a Phil Williams, Parc Fictoria ar enedigaeth Gwenno yn Ysbyty'r Brifysgol ar 11 Ebrill, chwaer fath i Manon ac wyres arall i Wynne a Beryl Thomas, Llanisien, a Mike a Beryl Williams, Yr Wyddgrug.

# CYMDEITHAS Y BEIBL
## Bore Sadwrn, 15 Mehefin



*Gwyneth Dyer, Salem, a Margaret Mostyn Jones, y Tabernacl, yn dewis teisen.*

Trwy garedigrwydd Iris Taylor a chwiorydd capel Park End, cynhaliwyd bore coffi a stondinau yno i godi arian at waith Cymdeithas y Beibl. Daeth cyfeillion Eglwys Dewi Sant â llond bord o blanhigion i'w gwerthu a chyfrannodd y capeli at ford orlawn o deisennau. Cadeirydd y Gymdeithas eleni, Eirlys Davies o Fethlehem, Gwaelod y Garth, groesawodd pawb a chanwyd 'Pen-blwydd hapus' i Beryl Jones o Gapel y Tyllgoed. Bu'n fore llwyddiannus a chodwyd £560 o ganlyniad i'r gwerthiant a chyfraniadau hael.

Ar 18 Medi, bydd y Gymdeithas yn cwrdd yng Nghapel y Crwys am 7 o'r gloch. Ar ôl oedfa fer dan arweiniad y Parchg Glyn Tudwal Jones bydd cyfle i gymdeithasu ac i brynu nwyddau. Gobeithio y daw llawer i gefnogi.

Ar 5 Hydref 2014, dwy ganrif wedi marwolaeth Thomas Charles, a ysgogodd sefydlu Cymdeithas y Beibl ac a anfarwolodd enw Mari Jones a gerddodd filltiroedd i mofyn Beibl ganddo, bydd cyfarfod arbennig yn Eglwys Llanycil, y Bala, ar achlysur agor y lle yn ganolfan i'r Gymdeithas ac yn fangre pererindod.

# YSGOLION

## Ysgol Y Berllan Deg

### Rygbi
Llongyfarchiadau i'r tîm rygbi a lwyddodd i gyrraedd rowndiau go-gynderfynol cystadleuaeth rygbi cynradd yr Urdd yn Llanelli yn ddiweddar. Daethant hefyd yn ail agos yng nghystadleuaeth Cwpan Sinclair Caerdydd.

### Criced
Mae Bl. 4 wedi elwa eto eleni o gael gwersi criced gan Criced Cymru.

### Hwylio
Cafodd Bl. 5 lawer o hwyl eto eleni yn dysgu sgiliau hwylio ym Mae Caerdydd.

### Gwobr Cymdeithas Adeiladwyr Prydain
Llongyfarchiadau i Nia Williams Bl. 3 Tristan am ennill y wobr gyntaf drwy Brydain yng nghystadleuaeth Cymdeithas Cenedlaethol Adeiladwyr am greu poster ar y testun 'Stay Safe, Stay Away'. Bydd Nia yn ennill iPod Shuffle a'i dosbarth yn cael gwibdaith am ddim wedi ei threfnu gan y gymdeithas ym mis Medi.

### Gweithdy Saesneg
Daeth yr awdur Dan Anthony i'r ysgol i gynnal gweithdai ysgrifennu creadigol gyda Bl. 5. Roedden nhw wedi mwynhau ei glywed yn darllen ei waith a chael defnyddio'r amgylchedd i lunio stori greadigol eu hunain.

## Ysgol Bro Edern

### Ymweliad Bardd Plant Cymru
Ar Fai 14eg daeth Eirug Salisbury draw i Ysgol Bro Edern er mwyn cwrdd â chriw bach o ddisgyblion brwd blwyddyn 7. Roedd pob un yn edrych ymlaen i gwrdd â'r bardd ac i gael hwyl yn barddoni yn ystod y prynhawn. Cafwyd cyfle i rannu syniadau a meddwl am eiriau ac odlau di-ri. Wedi dwy awr ddifyr o gydweithio a chyd-farddoni llwyddodd y criw i gyfansoddi cerdd arbennig am ein hysgol arbennig ni, Bro Edern. Dyma bennill olaf y gerdd:

> Fel y carw dewr ei hun
> safwn ni i gyd fel un,
> Dewch i'n gweld mewn gwyrdd a du
> yn ein cartref newydd ni.

### Cimwch ac Olwen
Ar lwyfan Tafwyl eleni perfformiodd hanner disgyblion Ysgol Bro Edern y gân actol arbennig *Cimwch ac Olwen* am y tro olaf. Yn ystod y flwyddyn roedd y 30 disgybl wedi bod yn ymarfer yn ddiwyd gydag Arweinydd yr Adran Gerdd a Drama, Miss Fflur Dafydd, sydd hefyd yn sgriptiwr o fri yn barod i berfformio yn Eisteddfod yr Urdd. Aeth llond bws o staff, teuluoedd a disgyblion draw i Foncath i gefnogi perfformiad cyntaf yr ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Yn y rhagbrawf ym mhabell y Neuadd Ddawns llwyddodd y disgyblion i



*Dyma'r disgyblion yn perfformio'r Gân Actol ar lwyfan yr Eisteddfod*

ddiddanu'r beirniaid a mynd ymlaen i'r llwyfan. Roedd pob un yn gyffrous wrth gwrs a phawb wrth eu boddau bod Bro Edern wedi cyrraedd y llwyfan ar yr ymgais gyntaf! Diwrnod arbennig iawn a dychwelodd pawb yn hapus gyda'r fedal efydd. Llongyfarchiadau mawr! Edrychwn ymlaen at y perfformiad nesaf.



*Y pengwiniaid yn y Gân Actol*

### Croesawu'r Llydawyr
Ym Mehefin daeth ymwelwyr o'r Collège Rutigliano yn Nantes i Fro Edern, drwy drefniant y gefeilldrefi. Daeth 25 o ddisgyblion sydd mewn ffrwd Llydaweg a thri o athrawon atom. Gwnaeth disgyblion Bro Edern gyflwyniadau yn Ffrangeg ar gyfer yr ymwelwyr, gwelsom ni ffilm o'r ysgol a gwelwyd cyflwyniadau am Nantes. Yn ogystal, gwnaeth pedwar disgybl gyflwyniad pedairieithog yn edrych ar y tebygrwydd rhwng rhai geiriau yn y pedair iaith. Gyda'r hwyr trefnodd yr adran ieithoedd ymweliad i Pizza Hut a Hollywood Bowl. Cafwyd noson arbennig gyda disgyblion y ddwy ysgol yn cymysgu'n wych.

### Diwrnod ABCh
Ar Fehefin 21ain cynhaliwyd diwrnod ABCh Lles, Ysbrydol a Moesol. Yn ystod y diwrnod cynhaliwyd amrywiaeth o sesiynau difyr: Cyngor Cyfeillgar, Hunan-ddelwedd, Ffrind da a Sesiwn yoga. Yn sicr roedd pob un wedi ymlacio'n llwyr yn y sesiwn hwnnw wrth i Mr Hancock hyfforddi'r disgyblion sut i wneud amrywiol symudiadau ac anadlu'n iawn!

### Chwaraeon
Llongyfarchiadau mawr i'r unigolion canlynol am eu llwyddiant mewn gwahanol gampau:

- Rivel Mardenborough (pêl-droed) : ysgolion Caerdydd a threialon i Coventry, West Bromwich Albion a Birmingham FC
- Herbie Powell-Gray ac Iwan Williams (pêl-droed): Treialon i ysgolion Caerdydd
- Iwan Williams (traws gwlad): wedi ei ddewis i gynrychioli tîm Caerdydd a'r Fro

### Gadael Ystum Taf

Ym mis Gorffennaf rydym ni griw bach cyntaf Ysgol Bro Edern yn gadael safle Ysgol Glantaf ac yn hel ein pac draw i'n safle parhaol yn ardal Penylan. Bydd mis Medi 2013 yn gyfnod cyffrous i'r ysgol wrth iddi barhau i dyfu a chroesawu disgyblion i flwyddyn 7 ac aelodau newydd o staff. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i staff a disgyblion Ysgol Glantaf am y croeso rydym wedi ei gael yn ystod y flwyddyn ac i ddisgyblion chweched dosbarth yr ysgol am eu cymorth gyda'r Cynllun Darllen.

## Ysgol Glantaf

### Taith Llydaw 2013

Mae hi'n 27 o flynyddoedd bellach ers i ni ddechrau ein cyfeillgarwch gyda Lycee Sain Sebastien yn Landerneau, Llydaw, ac erbyn hyn, mae'n debyg bod cannoedd o ddisgyblion Glantaf wedi cael y profiad arbennig o dreulio wythnos gyda theulu Llydaweg yn ymarfer eu Ffrangeg ac yn dysgu am fywyd mewn gwlad arall. Wrth gwrs doedd eleni ddim yn eithriad!

Gadawon ni Lantaf yn oriau man bore oer o Chwefror er mwyn teithio i Portsmouth i ddal y fferi. Er gwaethaf y tywydd gaeafol cawsom groesiad hyfryd a phawb wedi mwynhau moethusrwydd y llong Brittany Ferries a chael cyfle i sgwrsio, gwylio ffilm neu gael pryd o fwyd. Oriau yn ddiweddarach ar ôl taith ar gyd arfordir gogleddol Llydaw, dyma ni'n cyrraedd Landerneau a thorf o ddisgyblion a rhieni yn aros yn eiddgar amdanom y tu allan i ysgol Sain Sebastien.

Ar ôl treulio nos Sadwrn a dydd Sul gyda'r teuluoedd cychwynnodd yr wythnos gydag ymweliad a Phlanetariwm, Llydaw a'r Cote du Granit Rose, sef arfordir y gwenithfaen pinc. Cawsom flas ar harddwch arfordir Llydaw hyd yn oed ar ddiwrnod gwyntog, oer!

Ddydd Mawrth daeth cyn-athrawes o Saint Se i'n tywys o gwmpas tref Landerneau a chawsom amser hwylus yn ymweld â'r siopau ac adeiladau hanesyddol cyn gorffen gyda phryd o *crépes* bendigedig yn La Créperie du Pont, y siop grempog wedi ei lleoli ar bont hanesyddol Landerneau.

Dydd Mercher oedd diwrnod ein hymweliad â'r ffatri fisgedi enwog yn Pont Aven a chyfle i weld y ffatri ar waith a blasu'r cynnyrch! Uchafbwynt y daith i rai! Yna ymlaen â ni i ddinas hardd Quimper a chwblhau holiadur a helfa drysor am y dref.



*Taith Llydaw*

Dydd Iau oedd ein hymweliad olaf ni, gwaetha'r modd, ond fe fwynhaodd bawb ymweld ag Oceanopolis, sef acwariwm mwyaf Llydaw yn Brest, a chael cyfle i siopa yng nghanolfan siopa'r ddinas. Diddorol oedd gweld y tramiau modern, slic yn cludo'r siopwyr o gwmpas.

Rhaid oedd ffarwelio ddydd Gwener a chychwyn yn ôl i Gymru. Roedd ambell ddeigryn wrth ymadael a phawb wedi gwerthfawrogi'r croeso twymgalon. Cyn bo hir bydd ein ffrindiau Llydewig yn dod draw atom ni flasu bywyd yn y brifddinas ac fe gawn ad-dalu'r cymwynas.

## Ysgol y Wern

### Llwyddiant Cenedlaethol



Wedi diwrnod o gystadlu brwd yn Aberystwyth ar yr 20fed o Fehefin yn erbyn pymtheg o ysgolion siroedd eraill, daeth Tîm Cwis Llyfrau'r ysgol (Bl 6) yn drydydd dros Gymru. Cawsom ddiwrnod i'r brenin yno lle bu'r plant yn trafod y nofel *Y Dolffin Gwyn* cyn mynd ati wedyn i gyflwyno *Gwalch y Nen*. Llongyfarchiadau i bob aelod o'r tîm.

### Eisteddfod yr Urdd 2013

Bu dros 70 o blant yn cynrychioli Ysgol y Wern mewn cystadlaethau amrywiol yn Eisteddfod Sir Benfro eleni. Braf oedd gweld y disgyblion yn cael llwyddiant ac yn perfformio ar y llwyfan. Bu'r ysgol yn llwyddiannus yn y cystadlaethau canlynol:

Ensemble – cyntaf (Eirlys Lovell- Jones, Ismay Evans a Dafydd Chapman)



*Ensemble*




*Ismay Evans* *Eirlys Lovell-Jones*

Unawd Chwythbrennau – cyntaf Ismay Evans
Unawd Piano – trydydd Eirlys Lovell-Jones
Unawd Llinynnol – trydydd Eirlys Lovell-Jones
Côr Ysgol y Wern – trydydd



*Y Côr*

Braf hefyd oedd clywed bod Lowri Skyrme o Flwyddyn 5 wedi bod yn llwyddiannus yn yr adran Celf, Dylunio a Thechnoleg. Enillodd y wobr gyntaf am waith lluniadu 2D Blwyddyn 5 a 6 a chafodd ei gwaith ei arddangos yn yr Eisteddfod.



*Lowri Skyrme*


**Edrych am wersi**

**Clarinet ? .. Piano ? .. Organ ?**

**Theori cerddoriaeth ?**

Gwersi gan athrawon cerdd profiadol –

**Mrs Ruth Watt**, MA, BMus, LTCL

**Mr Howard Watt**, MMus, ARCO, FTCL

**Ffn: 02920 658961**

**Ffn sym: 07751 445581**


# CAEL BLAS AR DDYSGU YN Y COLEG

Yn enedigol o Lambed ac wedi'i fagu mewn cartref Cymraeg yn Llundain a bellach yn byw yng Nghaerdydd, bydd Gethin Matthews yn cymryd rhan flaenllaw ym mis Medi yn un o fentrau newydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol – sef y Cynllun Dysgu o Bell – gan draddodi cyflwyniad ar fywyd diwylliannol y Cymry tramor yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn stiwdio'r Coleg Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.



Bydd Gethin – darlithydd Hanes y Coleg Cymraeg ym Mhrifysgol Abertawe sydd hefyd yn dysgu myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor – ymhlith criw o ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg a fydd yn annerch cynulleidfa genedlaethol drwy'r cyswllt fideo yn ystod ail wythnos lawn mis Medi eleni: sef prynhawn dydd Mercher (11 Medi), nos Iau (12 Medi) a bore dydd Sadwrn (14 Medi). Bydd Gethin yn trafod un o'i feysydd arbenigol ef sef hanes cymunedau Cymreig tramor a'u gweithgareddau. Dyma gyfle gwych i bawb sy'n ymddiddori yng ngorffennol y genedl.

Prif nod y sesiynau hyn ym mis Medi yw cynnig blas i oedolion o bob oed ac o bob cefndir ar y cyfleoedd newydd ac arloesol sydd ar y gweill gan addysg uwch i'w cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Cynllun Dysgu o Bell yn dechrau'n swyddogol ym mis Medi 2014 felly mae digon o amser gennych i brofi beth sydd ar gael. Bydd cyfranwyr o brifysgolion Aberystwyth, Bangor, Abertawe a Chaerdydd yn cymryd rhan.

Os ydych chi yn chwilio am her newydd neu'n dymuno dilyn un o'ch diddordebau, neu efallai eich bod am wella eich sgiliau ar gyfer byd gwaith, dyma gyfle ardderchog i chi ddysgu yn eich amser eich hunan, wrth eich pwysau, yn eich cartref eich hun ac yn eich iaith eich hun. Y cyfan sydd ei angen arnoch yw awydd i ddysgu, cyfrifiadur a chyswllt band eang (*broadband*) â'r we. Bydd dewis eang iawn o feysydd ar gael pan fydd y cynllun hwn yn dechrau'n swyddogol ym mis Medi 2014 a bydd darlithwyr o brifysgolion ledled Cymru yn cynnig pynciau difyr a defnyddiol. Felly ewch i'r wefan (colegcymraeg.ac.uk/dysguobell) i weld a oes rhywbeth o ddiddordeb ichi. Ac os ydych ar y we, waeth i chi heb a lenwi ein holiadur cryno a di-lol i gael cyfle i ennill gwobr.

Ni chodir tâl o gwbl am y sesiynau blasu ym mis Medi eleni felly does dim byd i'w golli. Dewch draw i gael paned ac i weld a chlywed beth sydd gan addysg uwch i'w gynnig ichi ac i gwrdd â phobl sy'n rhannu'r un diddordebau â chithau. I gadw lle cofrestrwch nawr: dysguobell@colegcymraeg.ac.uk (Dr Owen Thomas neu Lowri Morgans: 01970 628474). I gael y manylion llawn am gynnwys a threfniadau'r sesiynau blasu ewch i: colegcymraeg.ac.uk/sesiynaublasu

# Newyddion o'r Eglwysi

## Ebeneser

**Deio yn dotio!**

Llongyfarchiadau i Gwenllian Glyn ac Ynyr Roberts ar enedigaeth Casi Glyn ar 9 Mehefin. Roedd Deio'n dotio at ei chwaer fach, a'r teidiau a'r neiniau Tegid a Nans, Avril ac Aled ar ben eu digon. Pob dymuniad da i'r teulu bach i'r dyfodol.

**Pererindod**

Aeth criw o'r Gymdeithas i ymweld ag Eglwys Gadeiriol Aberhonddu ar bnawn Sadwrn, 15 Mehefin. Cafodd y criw eu tywys o gwmpas yr eglwys hardd a oedd yn ôl pob tebyg ar safle Eglwys Geltaidd. Ym 1538 gwnaed yn Eglwys y Plwyf ac ym 1923 fe'i gwnaed yn Eglwys Gadeiriol. Diweddwyd y diwrnod yn cael te prynhawn sylweddol a blasus yng Ngwesty'r Castell.

**Amser cinio yn y Clinc**

Ar ôl cael gwledd nôl ym mis Ebrill ym mwyty'r Clinc, neidiodd nifer o'r aelodau at y cyfle i gael dychwelyd am bryd amser cinio ar bnawn Llun, 17 Mehefin. Yno run pryd roedd beirniad bwyd o'r *Daily Telegraph*. Beth bynnag oedd barn y beirinad hwnnw barn ein beiriniad ni oedd Aê.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Debbie Shuffley ar farwolaeth sydyn ei mab Jac, ac ŵyr annwyl Myra a'r diweddar Tony Ford.

## Salem, Treganna

**Bedydd**

Bedyddiwyd Ela, merch Manon a James yn ystod y mis. Llongyfarchiadau mawr i chi a phob dymuniad da i chi fel teulu.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr a theulu Iona Jones, a ymladdodd mor ddewr ac mor gadarnhaol yn erbyn ei hafiechyd. Meddyliwn am Tom, Nia Elin a Sian a'u teuluoedd ar adeg mor anodd. Roedd Salem yn orlawn. Roedd gan Iona lu o gysylltiadau a sawl ardal, ac roedd yn berson mor weithgar, mwyn a charedig. Bydd pawb yn gweld ei heisiau'n fawr yma yn Salem.

**Clwb Criced**

Mae'r clwb criced wedi cael tipyn o hwyl arni, ac wedi cael gemau da yn erbyn staff Ysgol Gwynllyw, staff Ysgol Glantaf a chlwb Ifor.

**Priodas**

Llongyfarchiadau i Elin Nash a Gavin Evans ar achlysur eu priodas yma yn Salem yn ystod y mis. Dymuniadau gorau i chi'ch dau yn y dyfodol.

**Clybiau Eraill**

Cyfarfu clybiau eraill Salem yn ystod y mis, gan gynnwys y clwb i fabanod o dan oed meithrin a chlwb y bobl ifanc, i drafod cynlluniau taith y flwyddyn nesaf.

## Tabernacl

**Priodas**

Llongyfarchwn Daniel a Fiona Thomas ar eu priodas yn ddiweddar. Daeth y Celtiaid ynghyd yn yr uniad hwn, ac roedd Huw a Sian wrth eu boddau gyda'r achlysur dedwydd hwn.

**Swydd Newydd**

Llongyfarchiadau i Marged Jones ar ei phenodiad i swydd ddysgu yn Y Barri. Pob dymuniad da iddi. Yn yr un modd dymunwn yn dda i Dylan Evans ar ei apwyntiad fel pennaeth Ysgol y Dderwen yng Nghaerfyrddin. Mae ar hyn o bryd yn brifathro Ysgol Iolo Morgannwg.

**Bore Coffi**

Diolch i Diana Owen am ei chroeso arferol. Daeth nifer dda ynghyd a mwynhau orig hwyliog.

**Eisteddfod yr Urdd yn Boncath**

Roedd hi'n hyfryd gweld cynifer o ffrindiau'r Tabernacl yn chwarae rhan amlwg yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Serennodd llawer o'n pobl ifanc a haeddant ein canmoliaeth. Bu rhai wrthi fel unigolion ac eraill mewn partïon a chorau. Cyfrannodd dau aelod fel beirniaid, sef Marged Jones ac Euros Rhys, a bu Steffan Messenger, cyn aelod o'r Ysgol Sul, yn llywio un o'r seremonïau.

**Cerdded i Groes y Parc**

Un o weithgareddau dathlu penblwydd yr eglwys yn 200 oedd taith gerdded i gapel Croes y Parc ar bnawn Sadwrn, Mehefin 8fed. Llwyddodd tua deg o bobl i gerdded o'r Tabernacl i Llanbedr y Fro, ac fe gynhaliwyd oedfa yno o dan arweiniad y gweinidog.

**Datganiad Organ**

David Geoffrey Thomas, Ail Organydd Cynorthwyol Cadeirlan Llandaf, oedd yr organydd gwadd fis Ebrill. Daeth nifer dda ynghyd a mwynhau rhaglen oedd at ddant pawb, rhaglen oedd wedi'i chynllunio yn ofalus.

Daeth yr achlysur i ben yn Jamie's Italian pan fwynhaodd nifer o'r gynulleidfa wledd wahanol, cwmni a bwyd da, a chronfa'r organ yn gyfoethocach gan i'r tŷ bwyta hwn gyfrannu hanner y bil i'r achos. Diolch i Thomas ac Oliver!

## Eglwys Dewi Sant

**Sul y Cyfamod**

Yn y gwasanaeth hwyrol ar Fehefin 2 hyfryd oedd cael ymuno â ffrindiau yn Eglwys y Crwys mewn gweinyddiad ecwmenaidd o'r Cymun Bendigaid gyda threfn y gwasanaeth wedi ei gynllunio gan yr eglwysi cyfamodol.

**Priodi**

Llongyfarchiadau i Ceri ac Andy Staley ar eu priodas yn Sheffield lle mae Ceri wedi ymgartrefu a gweithio ers blynyddoedd. Mae Ceri yn ferch i Lynette Allen.

Dymunwn yn dda hefyd i Rhys a Jackie Owen-Jones ar eu priodas yn ddiweddar yng Nghroatia. Mae Rhys yn fab i Stuart a Catherine Owen-Jones.

**Bedydd**

Ar Sul 23 o Fehefin bedyddiwyd Esyllt merch fach Carys a Norman ac fe gafodd groeso gwresog iawn gan y gynulleidfa.

**Cydymdeimlo**

Fel eglwys estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Brynmor Jones a'r teulu o golli Gill a oedd yn wraig, mam a mamgu annwyl iawn.

**Pererindod Dyffryn Clwyd**

Dydd Iau 19 Mehefin aeth 25 o



*Aelodau Eglwys Dewi Sant o flaen eu cartref yn ystod y Bererindod - Llyfrgell Gladstone, Penarlâg*

bererinion draw ar ymweliad tridiau i weld trysorau gwydr lliw Dyffryn Clwyd. Ymwelwyd ag eglwysi Tremeirchion, Dinbych (2), Llandyrnog, Llanrhaeadr, Llanynys a Llandegla. Dan arweiniad ein ficer, y Parchg Dyfrig Lloyd, cafwyd defosiwn yng Nghapel y Cyfieithwyr yng Nghadeirlan Llanelwy, a than ei arweiniad ef a'r Parchg Jonathan Smith cynhaliwyd gwasanaeth dinesig yn Eglwyswen, Dinbych, i ddathlu 450 mlwyddiant Deddf Cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg ac i anrhydeddu Humphrey Lhuyd, Aelod Seneddol Dinbych ar y pryd, am ei ran yn llywio'r Mesur drwy Dŷ'r Cyffredin. Canwyd anthem gan gôr Eglwys Dewi Sant. Bu'r pereinion yn aros yn Llyfgell Gladstone, Penarlâg, a gwnaed y trefniadau gan Gwynn a Mair Matthews.

**Deddf Cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg (1563)**

Daeth cynulliad lluosog i'r seminar a gynhaliwyd yn neuadd yr eglwys ar 12 Mehefin i drafod y cefndir i Ddeddf Cyfieithu'r Beibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin i'r Gymraeg (1563). Yn ystod y seminar cafwyd cyfle gyda'r tiwtor, Gwynn Matthews, i edrych ar gyfeithiadau cynnar i'r Gymraeg ac i olrhain y galw a fu am gyfieithu'r Beibl i iaith y bobl yn sgil y Dadeni a'r Diwygiad Protestannaidd. Yr argraff a wnaed ar bawb oedd maint ein dyled fel Cymry Cymraeg i ymdrechion yr ymgyrchwyr a'r ysgolheigion Tuduraidd.

## Eglwys y Crwys

**Cyfarchion**

Dymuniadau da i Cerian Angharad, Mrs Margaret Lewis a Mr Gwynfor Smart sydd heb fod yn hwylus yn ddiweddar. Adferiad buan iddynt.

**Oedfa Gymun**

Cynhaliwyd Oedfa Gymun fendithiol yng nghwmni aelodau Eglwys Dewi Sant ddechrau Mehefin. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchg Glyn Tudwal Jones a'r Parchg Dyfrig Lloyd. Pleser oedd cael croesawu aelodau Eglwys Dewi Sant atom.

**Y Cymdeithasau**

Mae'r gwahanol gymdeithasau wrthi'n brysur yn paratoi eu rhaglenni ar gyfer y tymor nesaf. Dymunir yn dda i'r Swyddogion:

**Y Gymdeithas –** Cadeirydd: Mr Gareth Rhys Davies; Ysgrifennydd: Mrs Catrin Rowlands; Trysorydd: Mr Arthur Evans

**Y Grŵp Merched –** Cadeirydd: Mrs Barbara Evans; Ysgrifennydd: Mrs Catherine Jobbins; Trysorydd: Miss Pat Lister

**Y Gorlan –** Cadeirydd: Mrs Glenys Thomas; Ysgrifennydd: Mrs Mari Williams; Trysorydd: Mrs Ann Parry

**Y Gymdeithas Ddrama**

Cafodd y Gymdeithas Ddrama wythnos brysur gyda Chwmni Teledu Fflic yn recordio ar gyfer y gyfres 'Am Ddrama'. Bu'n brofiad gwerthfawr i'r aelodau gyda chyfweliadau, ymarferion, a dosbarthiadau meistr o dan ofal hynaws Wynne Evans a Caryl Parry Jones. Edrychir ymlaen at weld y rhaglen o gwmpas y Nadolig. Diolch i'r aelodau am eu cydweithrediad.

Mae'r aelodau yn edrych ymlaen at eu trip i Stratford ganol Gorffennaf.

Maent yn barod yn paratoi at eu cynhyrchiad nesaf.

**www.eglwys-y-crwys.org.uk**

## Minny Street

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn annwyl am Dolores Morgan (Llaneirwg) a chydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu.

**Bedydd**

Hyfrydwch fu tystio i fedydd Samuel Stopford Kenny, mab Lisa a Sasha (Llundain) a brawd bach i Megan yn yr Oedfa Deuluol ym mis Mehefin. Pob dymuniad da i'r teulu.

**Yr Awr Dawel**

Fe lwyddodd 16 o aelodau i ymlonyddu'n dawel am awr gyfan i gyflawni'r nod ar ôl chwe sesiwn o dan ofal ein gweinidog. Dechreuwyd gyda chwe munud a gorffennwyd gydag awr allan o sŵn y byd. Profiad arbennig iawn.

**Neges Trydar @MinnyStreet**

Chi drydarwyr – cofiwch ddilyn trydar yr eglwys @MinnyStreet

**Cerddwledd a Chawl Cynnil**

Un o organyddion ein heglwys, Dr Owen Pickrell, a gyflwynodd raglen gerddorol wych o weithiau gan Gigout, Herbert Howells, Vaughan Williams a J. S. Bach. Wedyn cafwyd Cinio Cawl Cynnil mewn cefnogaeth i Apêl Haiti'r Undeb.

**Ennill a Thrydydd**

Fe enillodd PIMS (Pobl Ifanc Minny Street) ddwy wobr yng nghystadleuaeth logo Undeb yr Annibynwyr Cymraeg – y merched yn ennill a'r bechgyn yn drydydd, ac mae'r ddau logo ar grysau T yn barod!

**Darpar-lywydd newydd yr Undeb**


Darpar-lywydd newydd Undeb yr Annibynwyr yw ein cyn-aelod a chynddiacon, y Parchg Ddr R Alun Evans. Llongyfarchiadau mawr iddo.

**Munud i Feddwl**

Cofiwch am fyfyrdodau'r gweinidog yn y gyfres o Funud i Feddwl.

*parhad ar dudalen 13*

# DINESAIR Rhif 134



### Ar Draws

1. Allweddi cyfleon (9)
8. Cyn dechrau amser mae'r call yn cefnu ar y mwd (4)
9. '----- ----- oddi arnom bob rhyw wisg, Mantell parchusrwydd a gwybodaeth ddoeth' (Gwenallt) (3,6)
11. Cofnodiad sy'n troelli (6)
12. 'Onid yw Abana a Pharpar, ------ Damascus, yn well na holl ddyfroedd Israel?' (2 Brenhinoedd) (6)
13. Yn gwneud cynffon yn llai (2,6)
16. Etholais ein sant, dyn o Loegr! (8)
19. Mae hon yn troi'r llwy ac yn drysu Lea (6)
20. Marc cywir yn y man sy'n tipian (3,3)
23. Ceffyl yn troi'r aderyn yn dyfiant mawr (9)
24. Darn o dir yn swnio'n bellach i lawr (4)
25. 'Ond creigiau ------ A thonnau gwyllt y môr' (Cynan) (9)

### I Lawr

2. 'Fy more fu ym Merwyn Ofer a ----- ---- gwyn'(Cynddelw) (4,4)
3. Siwrne ddiddiwedd oddeutu Medi 3ydd i gael erfin (6)
4. 'Wrth bwyso ----- ----- ----- nos 'Rwy'n disgwyl dod i'r lan'(WJ) (4,3,1)
5. Tynnu'r dolur o'r arloeswr i'w wneud yn ddewr (4)
6. Band yn addas i guro (4)
7. Tymor nid drwg i gael bythynnod gwyliau efallai (6)
10. Mae hwn yn sefyll mewn sane dwl (4)
14. Y lle i ddyn annymunol gasglu dwst (8)
15. Mae bron yn wyth o'r gloch ac mewn dryswch yn pentyrru gormod (8)
16. Ffeindio'r ateb drwy roi dracht i'r nyrs ar yn ail (6)
17. Mae gweld diwedd Mis Mai hebddo Gwilym yn peri'r teimlad hyn (4)
18. Newid agwedd 50 at fwyta (6)
21. Gwêr yw calon dyn mewn cornel (4)
22. Mae hon yn gwneud gwaith da gyda rhaw (4)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 6 Medi.

**Enillydd Croesair Rhif 132 -**

## Eira Jones, Y Mynydd Bychan

**Atebion Rhif 131**

**Ar Draws** – 1. Dibynnol; 6. Copa; 8. Bargod; 9. Difraw; 10. Lladrata; 12. Y ddraig; 14. Artaith; 15. Amdanat; 19. Gwdihw; 20. Bwriad; 21. I ddod; 22. Llaneirwg

**I Lawr** – 1. Ifan; 3. Ysgall; 4. Nodedig; 5. Lydia; 6. Cofiant; 7. Planedig; 11. Addasrwydd; 13. Ataliad; 14. Anniben; 16. Diwall; 17. Twrci; 18. Cadw

# Newyddion o'r Eglwysi *(Parhad)*

**Ein gwefan**

Cofiwch ymweld â'n gwefan ar www.minnystreet.org am fwy o fanylion am weithgareddau'r eglwys.

## Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd

Roedd yr ail benwythnos yn Mehefin yn un nodedig iawn yn hanes yr eglwys.

Ar y dydd Sadwrn cafwyd benthyg capel Highfields, Monthermer Road i gynnal oedfa i ordeinio a sefydlu Trystan Hallam ac Emyr James yn gyd-weinidogion ar yr eglwys. Daeth Trystan i gael hyfforddiant i'r weinidogaeth yn ein plith cyn cael ei wneud yn weinidog cynorthwyol ddwy flynedd yn ôl. Un o blant yr eglwys yw Emyr ac yntau hefyd wedi hyffroddi yn ein plith yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Pregethodd y Parchg Gwynn Williams (sy'n ymddeol o fod yn weinidog ddiwedd mis Awst) gan annog y ddau weithiwr newydd i fod yn ddiflino yn eu pregethu o'r newyddion da Cristnogol fod 'Iesu Grist wedi dod i'r byd i achub pechaduriaid' gan annog pawb hefyd i weddïo y bydd y pregethu hwnnw dan eneiniad yr Ysbryd Glân.

Y bore Sul canlynol cynhaliwyd oedfa arall o bwys i gomisiynu Gwydion a Catrin Lewis wrth iddynt symud i'r Bala i fod yn wardeniaid yn Brynygroes, canolfan Mudiad Efengylaidd Cymru. Fe fydd eu hymadawiad yn golled yn fawr i ni fel eglwys. Mae Gwydion wedi bod yn henuriad gweithgar yn ein plith ac mae Catrin hefyd wedi cyfrannu yn helaeth i sawl agwedd o fywyd yr eglwys. Dymunwn bob bendith iddynt ynghyd â Bedwyr, y mab ifanca, fydd yn symud i'r gogledd gyda nhw.

Mae pennod newydd felly yn dechrau yn hanes yr eglwys. Gweddïwn ar i Dduw lwyddo'r dystiolaeth yn y blynyddoedd i ddod.

## Calendr y Dinesydd • Gorffennaf-Hydref

**Gwener–Sadwrn, 2–3 Awst**
Sioe Igam Ogam yn Stiwdio Weston, Canolfan y Mileniwm, am 10.00am ddydd Gwener ac am 1.00pm ddydd Sadwrn. Manylion pellach: 029-2063-6403; nia.jones@wmc.org.uk; www.wmc.org.uk.

**Gwener–Llun, 6–9 Medi**
Cymdeithas Carnhuanawc. Taith i ddinas Dulyn, gan aros yng Ngholeg y Drindod. Manylion pellach: Glyn Hughes, glyn@clwb.net

**Mawrth, 10 Medi**
Merched y Wawr Caerdydd. Sgwrs gan Rhiannon Gregory, 'Ma 'na stori fan hyn', yn Neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Rhagor o fanylion: 029-2075-4379.

**Mercher, 11 Medi**
Merched y Wawr Bro Radur. Noson yng nghwmni Archdderwydd Cymru, Dr Christine James, yn festri Capel y Methodistiaid, Heol Windsor, Radur, am 7.30pm. Croeso i aelodau newydd i ymuno â ni.

**Iau, 12 Medi**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Sgwrs ar le crefydd ar y cyfryngau yng nghwmni aelod o staff rhaglenni crefydd BBC Radio Cymru, yng nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am 7.30pm.

**Llun, 1 Hydref**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.00 ar gyfer 7.30 pm. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mawrth, 8 Hydref**
Merched y Wawr Caerdydd. Sgwrs gan Sarah Vivian am waith y parafeddyg, yn Neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Rhagor o fanylion: 029-2075-4379.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk


## HYSBYSEBION

Mae'r Dinesydd yn awyddus i gael cymorth rhywun i fod yn gyfrifol am hysbysebion.

Os hoffech ein helpu, byddai Bryan James yn falch o gael sgwrs â chi - 029 20 566731 neu cysylltwch ar db.james@ntlworld.com

Gellir trefnu comisiwn.


## COLOFNYDD Y MIS

### BODLONI
### Arthur Morris Jones

Beth amser yn ôl fe welais gyfweliad ar y teledu â gwraig oedrannus oedd yn dwyn atgofion am ei charchariad yn un o wersylloedd anfad y Natsïaid. Dwi ddim yn cofio'n iawn pa wersyll – Belsen, dwi'n meddwl. Ond anghofia i fyth mo'i hateb pan ofynwyd iddi beth oedd i gyfrif ei bod wedi goroesi y fath brofiad. 'Well, you see,' medda hi, 'you must not have the victim mentality.' Ateb ysgytwol nas anghofiaf fyth, ac a wnaeth i mi feddwl llawer iawn.

Dwi'n teimlo yn aml iawn y dyddiau yma mai ein perygl mawr ni fel cenedl yw bod yn fodlon a hyd yn oed yn ddiolchgar am yr hyn ydan ni wedi gael. Bodloni ar y Senedd a'r Llywodraeth bitw sydd gennym yn lle cael Senedd deilwng ohonom. Senedd a Llywodraeth 'effeithiol gref' – disgrifiad Ion Thomas yn rhifyn Mawrth *Y Dinesydd*. Gellir dadlau nad oes angen diolch am ddim a geir gan y Llywodraeth: dyletswydd Llywodraeth yw sicrhau buddiannau cenedl.

Bodloni ar ddarllen papurau a chylchgronau Saesneg tra mae papurau a chylchgronau Cymraeg yn edwino. Mi alla i ddwyn i gof y funud yma, fel llawer ohonoch chi, hanner dwsin o Gymry rhugl eu Cymraeg na phrynant na phapur na chylchgrawn Cymraeg o'r naill flwyddyn i'r llall.

Bodloni ar fwynhau Eisteddfod yr Urdd a gweithgareddau Mudiad y Ffermwyr Ifanc – gwyrthiau blynyddol – heb godi bys bach i helpu hefo'r gwaith.

Mae gen i gyfaill – Cymro di-Gymraeg – sydd yn dweud mai yn ei farn ef, y Cymry yw'r rhai mwyaf blaenllaw am fynnu eu hawliau, ac unwaith y maent wedi eu hennill, yna anghofio'r cyfan amdanynt.

Pastor Niemöller a ddywedodd, dwi'n meddwl – a dwi'n dyfynnu o'm cof – 'Fe ddaethant yn y lle cynta am yr Iddewon ond doeddwn i ddim yn Iddew a felly wnes i ddim gwneud na dweud dim: yna fe ddaethant am yr Undebwyr a chan na oeddwn i'n Undebwr, wnes i ddim gwneud na dweud dim: yna fe ddaethant amdana i a doedd neb ar ôl i achub fy ngham i.' Man cysurus i fod ynddo yw bod yn fodlon ar eich byd: gadewch fi'n llonydd: peidiwch â phigo fy nghydwybod i: dw'i rhy hen, rhy brysur a.y.y.b. Gadael i eraill lafurio, wedyn 'cerdded i mewn i'w llafur hwy'.

## ADDYSG GYMRAEG – Medi 2013 ychydig yn siomedig

Mae rhifau'r plant fydd yn dechrau addysg Gymraeg yn y brifddinas wedi'u diweddaru ac yn dangos ychydig o gynydd ar rifau Mawrth trwy gyfrif y ceisiadau hwyr.

Erbyn hyn mae 689 plentyn wedi cael lle ar gyfer mis Medi gyda deg o hyd i'w lleoli. 689 oedd y nifer a dderbyniwyd y llynedd a felly hyd yn oed o ychwanegu'r deg arall byddai'r twf ond ychydig dros 1%, llawer yn is na'r 6+% y cyfartaledd ers 2000. Mae blynyddoedd heb lawer o dwf wedi digwydd o'r blaen bob tro gyda naid ymlaen yn dilyn.

Hefyd mae rheswm i ofni bod plant wedi'u colli i addysg Gymraeg er fod 80 lle gwag ar draws y ddinas am fod ardaloedd lle mae'r galw yn uwch na'r lleoedd sydd ar gael yno. Un ardal yw dwyrain y ddinas lle mae Bro Eirwg, Pen y Pil a Glan Morfa i gyd yn orlawn a'r sir yn gwrthod lle i blant ond hefyd yn gwrthod gwrando ple cyson RhAG i ymestyn y ddarpariaeth. Mae'r ysgol agosach â lleoedd gwag ym Mhentwyn.

Ysgol arall dan bwysau yw Nant Caerau lle mae dros ddeg o blant wedi methu cael lle yn eu hysgol leol llynedd ac eleni. Eto mae awgrymiadau RhAG wedi derbyn clust fyddar.

Wrth gwrs, mae pethau yn symud ymlaen hefyd. Bydd Treganna o'r diwedd yn cyrraedd ei chartref newydd fis Medi ac yn barod mae 90 plentyn yn aros i lenwi y dosbarthiadau derbyn yno. Mae'r twf yn yr ardal yn parhau ar lefel o 5% ac nid oes amheuaeth y bydd angen yr ysgol newydd a addawyd erbyn 2015 yn Grangetown.

Bydd Bro Edern hefyd yn cyrraedd ei chartref newydd ar yr un adeg.

**Michael Jones**

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Daeth tyrfa ynghyd i Festri Bethany ar 17 Mehefin i groesawu Catrin Dafydd sy'n cyfuno swyddogaeth nofelydd, bardd, sgriptiwr, yn ogystal â darlledwraig. Mae hefyd yn gomedïwr o fri. Bu chwerthin a chymeradwywyd ei doniau amryfal a chafwyd ganddi gipolwg ar ei gweithgarwch a chlywed hefyd am ei dyheadau hi a'i chyfeillion i rannu'r diwylliant Cymraeg ag eraill. Maent yn trefnu nosweithiau mewn tafarn a chlwb ac yn denu sawl un i ymddiddori yn y Gymraeg ac i arfer yr iaith. Bu'n annog y gynulleidfa i ymuno mewn ymgyrch sydd ar droed i *ddechrau* pob sgwrs yn Gymraeg gan mai ar ôl dweud *diolch* ar ddiwedd sgwrs y sylweddolir yn aml mai yng nghwmni un sy'n siarad Cymraeg y buon ni. Roedd sawl un yn ceisio pwyso arni am wybodaeth am ddyfodol rhai o gymeriadau *Pobol y Cwm* ond cadw'r gyfrinach wnaeth Catrin Dafydd.



*Marian, Carol, Catrin Dafydd, Elliw a Glenys*

Gwilym oedd cadeirydd y noson a llongyfarchodd Gwenda Francis ar enedigaeth wyres arall, sef Mimi, a hefyd Hywel a Gwyneth Jeffries, ar dderbyn bob un y BEM. Roedd Lynne Davies yn dathlu ei phen-blwydd a chafwyd newydd da am wellhad gŵr Mair Dyfri Jones a Mary Price. Daeth Ann Parry yn aelod newydd.

Bore Sadwrn, 22 Mehefin, cododd y Gymdeithas dros £200 mewn bore coffi er budd Shelter Cymru. Y bwriad yw cyflwyno £1,000 at waith yr elusen honno.

# Merched y Wawr, Radur

Daeth gweithgareddau'r gangen i ben am y tymor gyda 'Brethyn Cartref'. Cyflwynodd ein Llywydd, Carys Tudor Williams ddwy wraig o'n cangen sef, Eirlys Eckley o Forfa Nefyn a Meri Griffiths o Ystrad Meurig. Siaradodd y ddwy yn ddifyr iawn am eu plentyndod a broydd eu mebyd mewn dwy ardal wahanol iawn i'w gilydd. Aethom ar daith ddiwylliannol drwy gyfrwng ffotograffau a chael cipolwg ar deithiau tramor ac achlysuron teuluol.

Edrychwn ymlaen i gael cwmni ein holl aelodau ar ddechrau tymor newydd o weithgareddau i wrando ar yr Archdderwydd Christine James. Croeso i aelodau newydd i ymuno â ni am 7.30 pm yn festri Capel Methodistiaid, Heol Windsor, Radur ar nos Fercher Medi 11eg.



*Yn y llun, o'r chwith i'r dde, Eirlys Eckley a Meri Griffiths.*

# TRYSOR CARNHUANAWC

Ar ganol wythnos Tafwyl, trefnwyd helfa trysor gan Cymdeithas Carnhuanawc (gan Keith Bush yn wir! – Diolch, Keith). Roedd y timau wedi casglu tu allan i'r llyfrgell ganolog am 6.30 ar gyfer cyfarwyddiadau – ac i dderbyn y cliwiau. Roedd deg o bethau i'w cofnodi ar ôl datrys y cliwiau mewn deg pennill pedair llinell yr un. Roedd bob un o fewn chwarter milltir o'r llyfrgell – ond dim i gyd yn yr un cyfeiriad. I chi cael syniad o'r dasg a wynebodd y timau dyma un pennill:

Ger Stryd Bute – dwy eglwys hynod.
Un amlwg, ond paid oedi gormod.
Y llall, ei sant sy'n rhoi presantau,
Pa beth sydd wrth ei ochr ddehau?



*Mosaic y tu allan i Eglwys Sant Nicholas, yn disgrifio un o'r digwyddiadau yn ystod wythnos Tafwyl.*

Yr ateb yw llong hwylio. Y sant yw Nicholas, yr eglwys yw'r Eglwys Uniongred Groegaidd o Sant Nicholas yn Greek Church Street. Doedd dim llawer ohonom yn gwybod am ei bodolaeth tan y nos Fercher honno. Y llong yn ymddangos ar mosaic tu allan i'r eglwys. Roedd y naw cliw arall yr un mor rhwydd! Sgoriodd y timau rhwng 4 a 10, gyda dau dîm yn gyfartal, yn cyrraedd y llinell derfyn yn yr Yard ar yr un amser. Roedd pawb wedi dysgu llawer am ganol Caerdydd – ac wedi cael amser da. Diolch yn fawr Keith. I weld beth arall mae'r Cymdeithas yn ei wneud ewch at www.carnhuanawc.org

# PARTI YN Y DIWC

Mae Clwb y Diwc ar fin cael parti. Fis Medi eleni fe fydd y Clwb yn bump oed ac i nodi'r garreg filltir bydd penwythnos o ddathliadau yn cael ei gynnal. Eisoes mae rhai wedi cadarnhau y byddan nhw'n perfformio yno dros benwythnos 20 a 21 Medi.

Wedi i Maffia Mr Huws chwarae yn y clwb fis Mehefin yn y gig oedd yn agor Gŵyl Tafwyl eleni, fe fydd band arall o'r 80au yn chwarae yn y parti pen-blwydd. Mae 'na hen edrych ymlaen at groesawu Jess i'r clwb ar y nos Sadwrn. Fe fydd enillwyr Cân i Gymru eleni, Jessop a'r Sgweiri hefyd yn dod ag Alys i'r Duke ar y nos Sadwrn. I gychwyn y dathlu ar y nos Wener edrychwn ymlaen at groesawu yr Al Lewis Band yn ôl. Fe fydd y cyflwynydd a'r DJ Huw Stephens yno hefyd. Dros yr wythnosau nesaf rydym yn edrych ymlaen at gyhoeddi mwy o enwau fydd yn chwarae dros y penwythnos a bydd tocyn penwythnos neu nosweithiol ar werth fis Awst yn siop Caban, Pontcanna.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn hynod brysur i'r Clwb. O gychwyn mis Medi diwethaf gyda gig yng nghwmni H ac Einir Dafydd rydym wedi croesawu Caryl Parry Jones, Geraint Lovgreen, Neil Rosser, Band Melin Gruffudd, y beirdd Rhys Iorwerth, Osian Rhys, Llŷr Gwyn Lewis ac Anni Llŷn yn noson Cnoi Draenogod, yn ogystal â rhai o gomedïwyr Gigl i'r Duke of Clarence, cyn croesawu Neil, Gwyn, Deiniol, Siôn a Dafydd – Maffia Mr Huws.




Ers mis Mai hefyd rydym yn cynnal cwis misol ar alw'r selogion, yn ychwanegol at y rhai oedd yn cael eu cynnal ganddo ni. Eisoes mae 'na gythral cystadlu wedi bod rhwng timau gyda gwobr o £30 i'r tîm buddugol bob mis. Rhaid diolch i Ieuan Rhys, Elin Wyn a Catrin Puw am y tri cwis sydd wedi bod eisoes. Welwn ni chi nesa yn yr Hydref.

Braf iawn yw cael croesawu selogion yn fisol i'r Diwc ar gyfer y clwb ond fe fyddwn yn barod iawn ac yn falch iawn o fod yn cael croesawu wynebau newydd. Be am y parti felly? Cyn diwedd 2013 fe fyddwn ni'n croesawu Band Melin Gruffudd yn ôl i'n diddori cyn y Nadolig yn ogystal â dathliad mis Tachwedd i nodi pen-blwydd arall, sef y *Dinesydd* yn 40 oed. Cofiwch hefyd am y cwis misol. Mae manylion ar wefan Facebook y Clwb, **Clwb y Diwc**.

CBAC
WJEC

Siop Lyfrau



Cefnogi eich anghenion addysgol

adnoddau addysgol • deunyddiau ar gyfer athrawon a myfyrwyr
cardiau cyfarch • anrhegion a theganau Cymraeg

**Ff:** 029 2026 5112/5063 **E:** sioplyfrau@cbac.co.uk **G:** www.cbac.co.uk/sioplyfrau
**Siop lyfrau CBAC** 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX
**Oriau agor** Dydd Llun – Dydd Iau 9.30am – 5.00pm, Dydd Gwener 9.30am – 4.30pm